Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
CELG(4)-28-14 Papur 2

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **23 Hydref 2014** |
| **Amser:** | **10:00-11:00** |
| **Teitl:** | **Cais am wybodaeth gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2015-16** |

**Diben**

1. Darparu gwybodaeth am Gyllideb Ddrafft 2015-16 mewn perthynas â'r Gymraeg yn unol â chais y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**Amseru**

2. Caiff y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi ar 30 Medi 2014.

**Ymateb**

3. Caiff y wybodaeth ganlynol ei darparu yn unol â threfn y llythyr comisiynu dyddiedig 5 Awst 2014 o dan y penawdau canlynol:

   - **Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb ar gyfer ariannu'r Gymraeg**
   - **Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**
   - **Polisïau allweddol,** gan gynnwys: cyflawni strategaeth *Iaith Fyw: Iaith Byw*; canlyniadau *Y Gynhadledd Fawr;* dyraniadau cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg; effaith ddisgwyliedig y rheoliadau sy'n darparu ar gyfer safonau'r Gymraeg o dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* a chyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
   - **Asesiadau o effaith ar y Gymraeg**
   - **Gwariant Ataliol**
   - **Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth**

## Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer ariannu'r Gymraeg

4. Gan fod y Gymraeg yn thema drawsbynciol, yn ogystal â'r BEL hyn, mae adrannau eraill yn cynnwys gwariant ar y Gymraeg yng nghyd-destun eu meysydd polisi eu hunain. Amlinellir gwybodaeth am wariant ar y Gymraeg mewn adrannau eraill mewn mannau eraill yn y papur hwn.

5. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r BEL sy'n ymwneud ag ariannu'r Gymraeg:

| BEL | 2014-15<br>Cyllideb Atodol Mehefin 2014<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Dangosol Cyllideb Derfynol Rhagfyr 2013<br>£000 | 2015-16<br>Gostyngiadau<br>£000 | 2015-16<br>Trosglwyddiadau<br>£000 | 2015-16<br>Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6020 Y Gymraeg | 8,914 | 9,049 | -400* | -3,390 | 5,259 |
| 6021 Comisiynydd y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 3,390 | 3,390 |
| 5164 Cymraeg mewn Addysg | 15,462 | 14,462 | -600 | 4,737 | 18,599 |
| 4765 BEL Buddsoddiad Strategol ** | 1,250 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y gwariant uniongyrchol ar y Gymraeg** | **25,626** | **23,511** | **-1,000** | **4,737** | **27,248** |

* Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £300K yng nghyllideb Comisiynydd y Gymraeg. Roedd hwn yn rhan o BEL 6020 ar gyfer 2014-15 ond trosglwyddwyd i BEL ar wahân yn yr ail gyllideb atodol

** Wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg (Paragraff 54)

6. Diben **BEL 6020** yw ategu nodau Strategaeth y Gymraeg *Iaith Fyw: Iaith Byw* a'r datganiad polisi *Iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen* sef:
   - Annog a chefnogi’r defnydd o’r Gymraeg o fewn teuluoedd
   - Cynyddu’r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
   - Cryfhau safle’r Gymraeg o fewn y gymuned
   - Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle
   - Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
   - Cryfhau’r seilwaith ar gyfer yr iaith

7. Diben **BEL 6021** yw ariannu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:
   - gweithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
   - gosod dyletswyddau ar bersonau sydd o fewn cwmpas y Mesur i gydymffurfio â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg
   - cynnal ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
   - ymchwilio i achosion honedig o ymyrryd â rhyddid unigolyn i gyfathrebu ag unigolyn arall yn Gymraeg.
   - hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat

8. Diben **BEL 5164** yw gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwneud y canlynol;
   - cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
   - darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol a'r Grant Cymraeg mewn Addysg;

- darparu hyfforddiant Cymraeg drwy gyrsiau Cymraeg i oedolion a Chymraeg ail iaith;
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
- ymgymryd â gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r Strategaeth.

9. 2015-16 fydd chweched flwyddyn y Strategaeth a chaiff y gwariant ei gynllunio yn unol â gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Weithredu'r Strategaeth.

10. Y rheswm pennaf am y cynnydd o £4.737m yn BEL 5164 yw trosglwyddiadau rheolaidd yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau. Ar sail tebyg am debyg, mae'r cyllidebau perthnasol wedi gostwng £600k rhwng 2014-15 a 2015-16. Mae'r trosglwyddiadau sy'n effeithio ar y BEL fel a ganlyn;

    - Trosglwyddo £9.867m o Addysg Ôl-16 i Gymraeg i Oedolion er mwyn symleiddio'r broses ar gyfer y sector;

    - Trosglwyddo £5.13m o'r Grant Cymraeg mewn Addysg sy'n weddill i Safonau Addysg er mwyn creu'r Grant Gwella Addysg newydd ar gyfer ysgolion.

**<u>Gwybodaeth y gwnaethpwyd cais amdani gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg</u>**

11. Gwnaethoch ofyn am gael gweld copi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ddarpariaeth gyllidebol i ategu'r broses o weithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol (WESPS). Gweler Atodiad 1.

**<u>Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â'r Gymraeg</u>**

12. Gwnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru:

    - Manylion y costau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â'r Gymraeg ac/neu unrhyw waith sy'n cael ei wneud i asesu'r cyfryw gostau;
    - P'un a ellir cyflawni'r ymrwymiadau hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio a manylion unrhyw feysydd lle ceir pryderon ynghylch fforddiadwyedd;
    - Gwybodaeth am y modd y caiff yr ymrwymiadau mewn perthynas â'r Gymraeg a'u canlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso er mwyn dangos gwerth am arian.

***Strategaeth y Gymraeg***

13. Caiff ymrwymiad **12/014** yn y Rhaglen Lywodraethu sef *'Parhau'n ymroddedig i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn iaith 'fyw', un sy'n ffynnu wrth gael ei defnyddio bob dydd ar draws ein gwlad'* ei gyflawni drwy Strategaeth y Gymraeg 2012-17 - *Iaith Fyw: Iaith Byw*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012. Mae'n nodi bod gan bob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb clir i arwain mewn perthynas â'r Gymraeg.

14. Fel y cyfryw, mae ymrwymiad 12/014 yn y Rhaglen Lywodraethu yn cwmpasu'r canlynol:
    **12/015** Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn hygyrch i bobl trwy gyfrwng y Gymraeg
    **12/018** Ceisio ymestyn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
    **12/020** Ceisio ffyrdd arloesol o sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei throsglwyddo mewn teuluoedd a bod defnyddwyr yn teimlo'n gyfforddus yn dewis y Gymraeg.
    **12/021** Gweithio i sicrhau bod grwpiau cymunedol yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau ac yn gallu gweithredu'n ddwyieithog.
    **12/022** Canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y cyfryngau electronig a cheisio sicrhau bod gan bawb ddewis o ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.
    **12/023** Ceisio perswadio busnesau rhyngwladol sy'n darparu gwasanaethau ar y we ac ar-lein i'w darparu yn Gymraeg.

15. Mae **BEL (6020)** 'Y Gymraeg' sy'n werth £5.259M, ynghyd â **BEL (6021)** 'Comisiynydd y Gymraeg' sy'n werth £3.390M yn ategu'r broses o weithredu'r Strategaeth ar draws chwe maes strategol:
    1. Y teulu (**12/020**)
    2. Plant a phobl ifanc
    3. Y gymuned (**12/021**)
    4. Y gweithle
    5. Gwasanaethau Cymraeg (**12/015**, **12/018**)
    6. Seilwaith (**12/022**, **12/023**)

16. Mae'r broses o gyflawni ymrwymiad **12/014** yn y Rhaglen Lywodraethu a'i ymrwymiadau atodol drwy weithredu strategaeth y Gymraeg yn cael ei chyflawni o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio. Gwnaed toriadau i'r gyllideb yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac felly bu'r broses o weithredu rhai o'r camau yn destun oedi neu cânt eu cyflawni dros gyfnod hwy. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r meysydd lle y gellir cyflawni'r canlyniadau mwyaf.

17. Caiff yr arian a ddosberthir i bartneriaid er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ei reoli gan Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y datganiad polisi diweddar, *Iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen*, mae trefniadau'n cael eu gwneud i sefydlu bwrdd prosiect er mwyn goruchwylio'r broses o weithredu'r Strategaeth a'r datganiad polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Mae Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y Strategaeth wedi'i baratoi a chaiff prosiectau gwerthuso penodol eu comisiynu maes o law.

18. Caiff ymrwymiadau **12/015 '***Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn hygyrch i bobl trwy gyfrwng y Gymraeg'* a **12/018** '*Ceisio ymestyn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru*' eu cyflawni yn sgil cyflwyno safonau'r Gymraeg.

19. Mae safonau'n cael eu datblygu a fydd yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol. Bydd y safonau hyn yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau mewn perthynas â'r canlynol:
    - Darparu Gwasanaethau
    - Llunio Polisïau
    - Hyrwyddo'r Gymraeg
    - Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol
    - Cadw Cofnodion

20. Mae gan y sefydliadau hyn gryn brofiad o weithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol, felly mae'n debygol y caiff y mwyafrif o'r costau yr eir iddynt er mwyn cydymffurfio â'r safonau eu cwmpasu gan gyllidebau presennol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â chynlluniau iaith Gymraeg.

21. Fel rhan o ymchwiliad safonau cyntaf Comisiynydd y Gymraeg, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) lle y gofynnwyd i'r sefydliadau nodi'r costau a oedd yn gysylltiedig â chydymffurfio â'r safonau, ar ben y costau yr aed iddynt er mwyn cydymffurfio â chynlluniau iaith Gymraeg.

22. Disgwylir i'r safonau ddod i rym drwy reoliadau ym mis Mawrth 2015. Felly, mae'n debygol y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio yng nghanol 2015 ac y bydd y safonau yn dod i rym chwe mis ar ôl derbyn yr hysbysiad cydymffurfio. Mae'n debygol y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â'r safonau yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16.

23. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwybod yn union pa safonau y bydd angen iddi gydymffurfio â hwy nes y bydd yn cael hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd. Roedd ymateb y Llywodraeth i ymarfer RIA yn seiliedig ar y safonau arfaethedig a fu'n destun ymchwiliad safonau'r Comisiynydd.

24. O gymharu â'r gost sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'i Chynllun Iaith Gymraeg ar hyn o bryd, nododd Llywodraeth Cymru na fyddai unrhyw oblygiadau cost ychwanegol i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithredu a chadw cofnodion. Nodwyd swm o £20,000 fel cost ychwanegol ar gyfer cydymffurfio â safonau hyrwyddo.

25. O ran ymrwymiad **12/020** yn y Rhaglen Lywodraethu sef *'Ceisio ffyrdd arloesol o sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei throsglwyddo mewn teuluoedd a bod defnyddwyr yn teimlo'n gyfforddus yn dewis y Gymraeg'*, ein prif fentrau yn y maes hwn ar hyn o bryd yw *Twf*, *Tyfu* a *Mae dy Gymraeg di'n Grêt*.

| *Cyllideb* | *2014-15*<br>*Cyllideb Atodol*<br>*£000* | *2015-16*<br>*Cyllideb Ddrafft*<br>*£000* |
|---|---|---|
| Twf | 655 | 655 |
| Tyfu | 143 | 143 |
| Mae dy Gymraeg di’n Grêt | 49 | 49 |

26. *Twf* yw ein menter fwyaf yn y maes hwn. Mae'n rhaglen sefydledig ac arloesol a gyflwynir ar draws gogledd a de-orllewin Cymru i annog rhieni/gofalwyr sy'n siarad Cymraeg i siarad Cymraeg gyda'u plant. *Tyfu* a *Mae dy Gymraeg di'n Grêt* yw ein mentrau presennol. Nod y mentrau yw helpu rhieni/gofalwyr i gyflwyno Cymraeg i'w plant a meithrin hyder rhieni/gofalwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

27. Fel y nodwyd yn ein datganiad polisi diweddar *Bwrw Mlaen*, credwn ei bod yn bwysig bod teuluoedd yn ymwybodol o un llwybr cymorth sy'n hyrwyddo eu defnydd hwy o'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg gan eu plant. Rydym felly yn awyddus i ddatblygu ac adeiladu ar y gweithgarwch presennol ar ffurf rhaglen genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod pob un o'n mentrau a'n hymdrechion yn y maes hwn yn cael eu cysoni er mwyn cynnig rhaglen eang ac amrywiol a fydd yn helpu teuluoedd i fyw drwy gyfrwng y Gymraeg.

28. O ran ymrwymiad **12/021** yn y Rhaglen Lywodraethu sef *'Gweithio i sicrhau bod grwpiau cymunedol yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau ac yn gallu gweithredu'n ddwyieithog'* rydym yn gweithredu cynllun grant i hyrwyddo'r Gymraeg. Un o nodau'r cynllun yw cefnogi gweithgareddau sy'n atgyfnerthu safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

| *Cyllideb* | *2014-15 Cyllideb Atodol £000* | *2015-16 Cyllideb Ddrafft £000* |
|---|---|---|
| Grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg | 3,664 | 3,652 |
| Gwariant ychwanegol o dan *Bwrw Mlaen* | 400 | 800 |
| Cynllun Gweithredu Technoleg | 250 | 250 |
| Cyfanswm | 4,314 | 4,702 |

29. Mae *Bwrw Mlaen* yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi £1.2 miliwn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn adeiladu ar y gweithgarwch hwn, sef £400,000 yn 2014-15 ac £800,000 yn 2015/16.

30. Mae hyn yn cynnwys swm o £750,000 ar gyfer y Mentrau Iaith dros ddwy flynedd yn ogystal â sefydlu cronfa gwerth £300,000 i hyrwyddo arloesedd mewn ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd strategol.

31. Mae Cynllun Gweithredu y Gymraeg a Thechnoleg yn cefnogi ymrwymiadau **12/022** ' *Canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y cyfryngau electronig a cheisio sicrhau bod gan bawb ddewis o ddefnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl'* a **12/023** *'Ceisio perswadio busnesau rhyngwladol sy'n darparu gwasanaethau ar y we ac ar-lein i'w darparu yn Gymraeg'* a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

32. Cyllideb y Cynllun Gweithredu Technoleg yw £250,000 y flwyddyn dros y tair blwyddyn ariannol 2013-2016. Bu'r gyllideb hon yn ddigon i wneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael â methiant yn y farchnad o ran technoleg yn Gymraeg.

33. Caiff pob grant ei fonitro yn unol â chanllawiau'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn erbyn targedau yn seiliedig ar ganlyniadau.

***Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg***

34. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae'r gyllideb yn ategu'r strategaeth hon ym mharagraff 8. Mae targedau ac amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cefnogi'r broses o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac, yn benodol, 'Cyflwyno'r Strategaeth *Addysg Cyfrwng Cymraeg'* a *'Ceisio cynyddu nifer y bobl sydd yn siarad ac yn defnyddio’r Gymraeg yn ein system addysg'.* (**12/016, 12/017, 3/022, 3/023** a **3/024**)**.**

35. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Gymraeg yn thema drawsbynciol ac, fel y cyfryw, yn ogystal â'r dyraniad cyllidebol hwn, mae adrannau eraill yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg yn y system addysg. Er na ellir ei fesur yn hawdd, mae cyfanswm y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg mewn addysg yn sylweddol uwch.

36. Caiff gwariant ei gynllunio yn unol â'r gweithgareddau hynny sydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Weithredu'r Strategaeth, sy'n cynnwys;
    - cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
    - darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol a'r Grant Cymraeg mewn Addysg;
    - darparu hyfforddiant Cymraeg drwy gyrsiau Cymraeg i Oedolion a Chymraeg ail iaith;
    - comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
    - ymgymryd â gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r Strategaeth.

37. Mae ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cael eu cyflawni o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio.

38. Mae'r Strategaeth yn cynnwys targedau pum mlynedd penodol a thargedau deng mlynedd mynegol yn seiliedig ar ganlyniadau, a gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth. Dechreuodd gwerthusiad tair blynedd o'r Strategaeth ym mis Hydref 2012. Caiff y gwerthusiad hwn ei fwydo i mewn i adolygiad cynhwysfawr o'r Strategaeth, a gaiff ei gynnal ar ôl y pum mlynedd cyntaf yn 2015.

39. Mae ymrwymiad yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg hefyd i fonitro'r cynnydd yn erbyn y targedau yn y Strategaeth a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Cyhoeddwyd y pedwerydd adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ar 17 Gorffennaf 2014[1].

---

[1] http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/wmesreport/?skip=1&lang=cy

***Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Mwy na Geiriau***

40. Mae gan Uned Gymraeg yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC) gyllideb rhaglen fach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth iaith Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a gweithredu'r fframwaith *Mwy na Geiriau*. Mae'r strategaeth hon yn cefnogi'r broses o gyflawni ymrwymiad **4/104 (2012)** *'Datblygu a gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg newydd ar gyfer y GIG i atgyfnerthu a chyflymu'r camau i'w gwneud yn haws i gleifion gael gafael ar wasanaethau yn eu mamiaith'* a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

41. Nid yw'n bosibl nodi'n benodol unrhyw wariant arall gan AIGC ar y Gymraeg gan y byddai hwn yn cael ei brif ffrydio fel rhan o'r gwariant cyffredinol ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

42. Dylai'r ymrwymiadau hyn fod yn fforddiadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio gan nad oes unrhyw gostau ychwanegol sylweddol yn gysylltiedig â gweithredu *Mwy na Geiriau*.  Gellir cyflawni llawer drwy agwedd a dymuniad i wella a thrwy sicrhau y caiff y ddarpariaeth Gymraeg ei hystyried o'r cychwyn cyntaf wrth gynllunio / datblygu gwasanaethau yn hytrach nag fel ôl-ystyriaeth.

43. Mae rheolwr gweithredu a grŵp gweithredu sy'n monitro cynnydd a wneir o ran cyflawni *Mwy na Geiriau* a chyflwyno adroddiadau i Dasglu'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Fel y nodwyd uchod, gellir cyflawni llawer o'r hyn a nodir yn *Mwy na Geiriau* heb fynd i gostau ychwanegol sylweddol.  Fodd bynnag, os oedd unrhyw faterion perthnasol a oedd yn gysylltiedig â gwerth am arian, byddai'r rhain yn cael eu hystyried gan y grŵp gweithredu.

***Y strategaeth dai***

44. **12/019** *'Parhau i gyflwyno cyllid ar gyfer tai fforddiadwy newydd yng Nghymru gan fod hyn yn gyfraniad hanfodol i gymunedau cynaliadwy a all gefnogi dyfodol yr iaith Gymraeg'*.

45. Y Grant Tai Cymdeithasol (SHG) yw'r prif grant cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tai fforddiadwy. Fe'i defnyddir yn bennaf i ariannu cynlluniau tai gyda'r nod o ddiwallu'r angen lleol am dai a blaenoriaethau yn y maes. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am ddewis y cynlluniau a roddir ar waith a'r cymdeithasau tai a fydd yn bartneriaid iddynt. Telir SHG i'r cymdeithasau hyn maes o law er mwyn datblygu, prynu a rheoli'r tai fforddiadwy.

46. Y gyllideb ar gyfer SHG yw £57.5 miliwn ac, yn ogystal â hyn, bydd y Grant Cyllid Tai yn darparu dros 1000 o dai fforddiadwy ledled Cymru erbyn diwedd 2015/16. Bydd y cyllid blynyddol, sef £4 miliwn, yn cyfateb i £60 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw ac yn denu o leiaf £60 miliwn ychwanegol gan y sector cymdeithasau tai.

47. Cafodd prosiectau Swyddogion Galluogi Tai Gwledig (RHE) eu treialu'n llwyddiannus am y tro cyntaf 10 mlynedd yn ôl ac maent wedi bod yn gweithredu mewn rhannau gwahanol o gefn gwlad Cymru byth ers hynny. Maent yn

gweithio'n agos gyda chymunedau gwledig i nodi'r angen lleol am dai, a chydag awdurdodau cynllunio a thai a chymdeithasau tai i ddarparu tai mewn ardaloedd gwledig. Ar lefel leol, caiff y prosiectau eu hariannu gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a pharciau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu tua 30% o'r cyllid refeniw ar gyfer pob prosiect.

48. Er nad yw'r rhaglenni cyfalaf hyn yn ymwneud â'r Gymraeg yn unig, maent yn cefnogi'r broses o ddarparu tai fforddiadwy mawr eu hangen ledled Cymru gan gynnwys mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o siaradwyr Cymraeg ac, yn wir, maent yn cefnogi'r iaith drwy sicrhau bod tai ar gael i deuluoedd lleol sy'n siarad Cymraeg.

49. Mae'r ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau sydd ar gael ar gyfer y portffolio.

50. Mae Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r adran Llywodraeth Leol a Chymunedau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth fynd ati i werthuso'r rhaglen.

## <u>Polisïau allweddol</u>

### *Sut mae a wnelo dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft â'r strategaeth Iaith Fyw: Iaith Byw*

51. Mae paragraffau 13-33 o dan Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn darparu'r wybodaeth hon.

### *Effaith Y Gynhadledd Fawr ac ymateb dilynol Llywodraeth Cymru*

52. Ym mis Awst 2014, cyhoeddodd y Prif Weinidog ymateb Llywodraeth Cymru i Y Gynhadledd Fawr drwy ddatganiad polisi - *Iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen.* Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi'n glir agenda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg dros y tair blynedd nesaf.

53. Mae'r pwyslais yn *Bwrw Mlaen* ar weithredu a chyflawni er mwyn cefnogi a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg. Mae'r ddogfen yn nodi pedair thema strategol:

- Yr angen i gryfhau’r cysylltiadau rhwng yr economi a’r Gymraeg.
- Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg.
- Y defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned.
- Yr her o newid ymddygiad ieithyddol.

54. Mae pob thema yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu, sy'n cynnwys:

- cyflwyno cronfa buddsoddi gwerth £1.25 miliwn ar gyfer 2014-15 a fydd wedi’i thargedu’n benodol at gefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu all hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg neu drochi’r Gymraeg drwy gystadleuaeth a fydd yn cynhyrchu syniadau ac egni newydd
- datblygu cyfres o ymgyrchoedd gyda’r nod o newid ymddygiad ieithyddol a fydd yn defnyddio arbenigedd marchnata cymdeithasol, gan ddechrau gydag ymgyrch ‘Y Pethau Bychain’
- gwefan a fydd yn hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd i ddysgu, defnyddio a mwynhau’r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd ar draws Cymru

- cronfeydd newydd gwerth £400,000 o'r portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, i gefnogi'r cyswllt rhwng y Gymraeg a'r economi
- ailflaenoriaethu cronfeydd yr Adran Addysg a Sgiliau a arweiniodd at sicrhau £1.2m ychwanegol dros ddwy flynedd (£400,000 yn 2014-15 ac £800,000 yn 2015-16) i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned (dyma'r gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Cymraeg i Oedolion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014).

***Dyraniadau cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a'r sail a ddefnyddiwyd i benderfynu arnynt***

55. Cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg

| Cyllideb 2014-15<br><br>£’000 | Gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb<br>£’000 | Cyllideb 2015-16<br><br>£’000 | %<br>Gostyngiad |
|---|---|---|---|
| 3,690 | (300) | 3,390 | (8) |

56. Sefydlwyd Llinell Wariant ychwanegol yn y Gyllideb (BEL) yn 2014-15 er mwyn helpu i sicrhau tryloywder, gyda’r trosglwyddiad yn cael ei weithredu yn yr ail gyllideb atodol.

57. Er ein bod yn parhau'n ymrwymedig i'r Gymraeg, ni allwn amddiffyn pob gwasanaeth rhag effaith y toriadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu gwariant. O ganlyniad, rhaid oedd cynnal asesiad o'r gyllideb gyffredinol er mwyn nodi ble y gellid gwneud toriadau a ble y byddent yn cael yr effaith leiaf. Fel rhan o'r adolygiad, penderfynwyd lleihau cyllideb Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2015-16 £300,000, sy'n cyfateb i tua 8%.

58. Er mwyn diogelu'r ymrwymiadau a wnaed yn *Bwrw Mlaen*, nid yw'n briodol torri cyllid i'n partneriaid cyflawni sy'n gweithio i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru. Felly, rhaid oedd ystyried gwario llai ar feysydd eraill.

59. Er bod cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei leihau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddiogelu rôl rheoleiddio'r Comisiynydd ac wedi nodi meysydd gwaith lle y gallai'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd gael ei ddyblygu.

60. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda'r Comisiynydd i nodi ffyrdd o gydweithio a gweithio'n wahanol mewn meysydd fel hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael.

***Sut mae dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi'u dylanwadu gan effaith ddisgwyliedig y rheoliadau a fydd yn cyflwyno safonau'r iaith Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;***

61. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o'r cam Ymchwilio i Safonau. Fodd bynnag, roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar y safonau arfaethedig ac felly

ni allwn nodi'r effeithiau disgwyliedig hyd nes i'r rheoliadau gael eu llunio a'r gyfres derfynol o safonau gael eu gosod ar Lywodraeth Cymru.

***Sut mae a wnelo dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft â'r broses o gyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am y cysylltiad rhyngddynt a thargedau, y canlyniadau a gyflawnwyd hyd yn hyn a chanlyniadau bwriadedig.***

62. Mae gwybodaeth ynghylch sut mae'r gyllideb yn ategu'r strategaeth hon ym mharagraff 8**.** Er bod y cynlluniau newydd ar gyfer y gyllideb yn dangos cynnydd yn y BEL Cymraeg mewn Addysg, fel y'i disgrifir ym mharagraff 10, ar sail tebyg am debyg, mae'r cyllidebau perthnasol sy'n ategu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi gostwng £600k rhwng 2014-15 a 2015-16.

63. Ymhlith y prif effeithiau bydd y canlynol:
    - Grant Cymraeg mewn Addysg - Bydd effaith y gostyngiad yn y gyllideb yn 2015-16 yn golygu y bydd llai o gymorth ar gael i ysgolion gan awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o addysgu Cymraeg a Chymraeg ail iaith.
    - Comisiynu adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg - Caiff llai o adnoddau addysgu eu comisiynu; caiff hyn ei reoli oherwydd yr amser a gymerir i gomisiynu a chynhyrchu adnoddau ac oedi diweddar yn y broses tendro a chomisiynu.
    - Gwneir llai o weithgarwch marchnata - Rhywfaint o effaith ond nid effaith sylweddol.
    - Cynllunio a phrif ffrydio - bydd effaith fach ar y gyllideb sydd ar gael i weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

64. Mae'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** yn rheoli, yn datblygu ac yn rhoi trosolwg annibynnol o addysg uwch cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i gefnogi gwaith y Coleg, gan gynnwys darparu ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg i gymell unigolion i astudio ar lefel addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dyraniad cyllidebol o £8,600,000 (**BEL 4561** Er mwyn ein Dyfodol - CCC ac UKHOVI) wedi'i ddarparu o fewn y dyraniad ar gyfer darpariaeth CCAUC i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2015-16, gyda £330,000 ychwanegol i gefnogi Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg.

65. Rhoddwyd cylch gorchwyl i CCAUC yn 2013-14 i gynnal gwerthusiad o ganlyniad gweithgareddau'r Coleg, gan gynnwys adolygiad o'r cyllid a roddwyd i'r Coleg, ac i roi manylion yr adolygiad i'm swyddogion erbyn mis Medi 2013 ac adroddiad terfynol erbyn mis Medi 2014. Mae'r adolygiad hwnnw'n mynd rhagddo. Caiff ei gynnal gan yr ymgynghorwyr Oldbell3, a chaiff adroddiad ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Medi 2014.Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y canfyddiadau cyn nodi'r cwmpas ariannol terfynol ar gyfer 2015-16 a thu hwnt.

***Manylion y costau a/neu unrhyw waith i asesu'r gost o gyflwyno'r polisïau hyn;***

66. Fel y nodwyd ym mharagraff 17, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y datganiad polisi diweddar, *Iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen*, mae trefniadau'n cael eu gwneud i sefydlu bwrdd prosiect i oruchwylio'r broses o weithredu'r Strategaeth a'r datganiad polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Mae Fframwaith Gwerthuso ar

gyfer y Strategaeth wedi'i baratoi a chaiff prosiectau gwerthuso penodol eu comisiynu maes o law.

***Gwybodaeth ynghylch sut y caiff y broses o gyflwyno'r polisi, a'i ganlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso er mwyn dangos gwerth am arian.***

67. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ym mharagraff 17.

**Asesiadau o effaith ar y Gymraeg**

68. Mae sawl cam pwysig wedi'u cymryd wrth baratoi'r gyllideb ddrafft eleni er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.

69. Rydym yn adeiladu ar yr asesiad o effaith y gyllideb y llynedd ac rydym wedi paratoi asesiad cwbl integredig o effaith ar gyfer 2015-16, sy'n cynnwys y Gymraeg ar draws y meysydd portffolio.

70. Cyhoeddwyd Asesiad Integredig o Effaith (IIA) Cyllideb Ddrafft 2015-16 fel dogfen annibynnol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 30 Medi 2014.

71. Mae gan y dull integredig hwn y fantais allweddol o ystyried effeithiau penderfyniadau gwario ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig yn ogystal â materion gwahanol. Mae gwneud hynny mewn modd cynhwysol yn ein helpu i ddeall y cydberthnasau rhwng y meysydd allweddol hyn.

72. Dyma'r tro cyntaf i ni gynhyrchu adroddiad integredig sy'n ystyried hawliau plant, cydraddoldeb, trechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Nid yw'r materion hyn yn rhai annibynnol - maent yn cefnogi ac yn ategu ei gilydd. Er enghraifft, mae Cymru fwy cyfartal yn un o'n nodau llesiant i Gymru. Rydym am weld cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

73. Mae'r IIA yn ddogfen fwy penodol sy'n nodi'r newidiadau mwyaf sylweddol i gyllidebau ac yn amlygu'r rhesymau dros ddiogelu rhai cyllidebau hefyd.

74. Rhoddwyd canllawiau i bob Adran ynghylch asesu'r effaith ar y Gymraeg wrth baratoi eu cyllidebau drafft eleni. Mae'r adroddiad ar yr asesiad o effaith y gyllideb yn dangos y newidiadau mwyaf fesul Maes y Rhaglen Wariant.

75. Mae'r adroddiad ar yr asesiad o effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft yn cynnwys nifer o enghreifftiau o asesiadau o effaith ar y Gymraeg.

76. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi y bydd £4,324,396.98 ar gael i **CWLWM** (consortiwm o bum sefydliad gofal plant arweiniol yng Nghymru) dros gyfnod o dair blynedd. Ymhlith amcanion y consortiwm mae nodi bylchau yn y ddarpariaeth Gofal Plant a Chwarae ledled Cymru a dod o hyd i atebion i'r bylchau hynny gan gynnwys atebion arloesol sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg.

77. Nod **Dechrau'n Deg**, rhaglen trechu tlodi allweddol, yw gwella canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Mae Cynlluniau Cyflawni Dechrau'r Deg, a gwblheir gan bob awdurdod lleol er mwyn cael y grant, yn ei

gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddarparu manylion y gofal plant a ddarperir yn Gymraeg a sut y'i cynigir i rieni. Mae'r nod, sef cynyddu nifer y plant sy'n manteisio ar Dechrau'n Deg i 36,000 erbyn 2016, wedi arwain at gynnydd yn y galw am siaradwyr Cymraeg, yn enwedig gweithwyr gofal plant, gan ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ymateb i ddymuniadau rhieni a darparu lleoedd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'r broses o ehangu Dechrau'n Deg hefyd yn galw am gynnydd mewn nifer o rolau gan gynnwys gweithwyr cymorth rhianta, ymwelwyr iechyd a therapyddion lleferydd ac iaith. Mae'r swyddi hyn yn adlewyrchu gofynion ieithyddol yr awdurdod lleol. Yn ogystal, caiff holl ddeunyddiau hyrwyddol Dechrau'n Deg eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

78. Mae cyfanswm y gyllideb refeniw ar gyfer **Diwylliant a Chwaraeon** wedi gostwng 3.4% o gymharu â 2014-15. Felly, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn er mwyn dod o hyd i'r toriadau sydd eu hangen yn y gyllideb. Wrth wneud penderfyniadau ar y gyllideb, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith y penderfyniadau ar y Gymraeg. Mae llawer o'r sefydliadau yn cynnal swyddi mewn ardaloedd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg - er enghraifft, y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth; safleoedd Amgueddfeydd Cenedlaethol yn Nrefach, Felindre ac yn Llanberis; y Comisiwn Brenhinol a Chyngor Llyfrau Cymru yn Aberystwyth, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Sir Gaerfyrddin a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. Felly, bu'n fater o ystyried yr effaith y byddai toriadau yn y gyllideb yn ei chael ar y cyrff hyn, y swyddogaethau y maent yn eu cyflawni, gyda phwyslais penodol ar swyddi a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar gymunedau gwledig yn y cadarnleoedd Cymraeg. Fodd bynnag, oherwydd natur y cyllidebau a'r ffaith bod pwysau mawr ar yr holl gyrff a ariennir, bu'n rhaid lleihau cyllidebau - i raddau amrywiol - er mwyn cyflawni'r gostyngiad cyffredinol angenrheidiol o 3.4% yn y gyllideb.

## <u>Gwariant Ataliol</u>

79. Mae £654,500 wedi'i ddyrannu ar gyfer ariannu prosiect Twf ar gyfer 2015-16. Caiff prosiect Twf, sef prif brosiect ymyrraeth Llywodraeth Cymru ym maes trosglwyddo iaith o fewn y teulu, ei ystyried gan arbenigwyr fel un o'r ddau faes pwysicaf o ran cynllunio iaith, ynghyd ag addysg. Fel y nodwyd yn strategaeth y Gymraeg *Iaith Fyw: Iaith Byw,* hoffai Llywodraeth Cymru weld mwy o deuluoedd lle mae o leiaf un oedolyn yn y teulu, sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r plant, yn siarad Cymraeg fel y brif iaith. Mae Twf yn brosiect arloesol ac eang sydd â'r nod o annog rhieni/gofalwyr Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant. Mae ganddo rwydwaith o swyddogion maes ledled Cymru sy'n sicrhau bod rhieni, darpar rieni a'r cyhoedd yn ymwybodol o fanteision cyflwyno'r iaith i blant o adeg eu geni, a'i magu'n ddwyieithog.

80. Drwy fuddsoddi mewn mentrau i dargedu teuluoedd o'r cyfnodau beichiogi a geni, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod negeseuon allweddol ynghylch gallu plant i ddeall mwy nag un iaith yn cael eu cyfleu. Dengys ymchwil mai'r cyfnodau tyngedfennol ar gyfer datblygu'r llwybrau niwral ar gyfer iaith yn ymennydd babanod yw rhwng adeg eu geni a chwe mis ar gyfer geirfa, a rhwng chwech a 12 mis ar gyfer gallu ieithyddol a lleferydd. Drwy gyflwyno mentrau sy'n canolbwyntio ar y cyfnod hwn, rydym yn sicrhau bod plant yn cael y dechrau

gorau posibl ac y caiff dwy iaith eu cyflwyno o adeg eu geni, gan osgoi'r angen i wneud ymdrechion ychwanegol, darparu adnoddau ychwanegol a mynd i gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dysgu'r iaith yn hwyrach mewn bywyd.

81. Ymhlith yr enghreifftiau da eraill mae prosiectau *Tyfu* a *Mae dy Gymraeg di'n Grêt* fel y'u nodir ym mharagraffau 25-27.

**<u>Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth</u>**

82. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni achub ar bob cyfle i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gyson â'r egwyddorion canlynol. Rydym eisiau iddynt:
    - Fod yn gydnaws â natur ddwyieithog Cymru.
    - Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a, lle bynnag y bo'n bosibl, helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.
    - Parchu'r egwyddor y dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
    - Helpu i warchod cymunedau traddodiadol Gymraeg.

83. Noda Adran 144(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 y bydd Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (delio â chynlluniau) yn peidio â bod yn gymwys i berson os daw'r person hwnnw, a phan ddaw'r person hwnnw, yn ddarostyngedig am y tro cyntaf i'r ddyletswydd o dan adran 25(1) o'r Mesur hwn i gydymffurfio â safon. Ar y sail hon, byddai Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol yn parhau nes i'r Comisiynydd osod y safonau.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

84. Nid yw'r Ddeddf yn dod i rym tan fis Ebrill 2016, felly ni fydd unrhyw effaith ar y Gymraeg na chyllidebau cysylltiedig yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16.

85. Mae'r asesiad o effaith ar y Gymraeg yn datgelu nad yw'n debygol y bydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith a, chan fod y Bil wedi'i gynllunio i greu system decach i bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, fod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Rhaid i bob unigolyn a sefydliad sy'n gysylltiedig â'r broses o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag unrhyw un o safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

86. Wrth baratoi'r Bil hwn, ystyriwyd Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol: *Mwy na Geiriau* ac, o ganlyniad, rhoddwyd ymrwymiad Gweinidogol y bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y rheoliadau a'r Canllawiau a fydd yn ategu'r Bil hwn, er enghraifft, mewn perthynas â'r trefniadau asesu a chomisiynu newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

87. O ran paratoi Cynlluniau lleol ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal a Chymorth a Llesiant lleol, mae'r Bil yn cynnwys egwyddor statudol bwysig sef bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, gan gynnwys iaith.

88. **Noda** *Mwy na Geiriau* fod iaith yn angen ac, wrth nodi'r manylion sydd eu hangen mewn asesiad; caiff y gofynion mewn perthynas â nodi angen iaith eu nodi mewn Rheoliadau.

**Bil Cynllunio (Cymru)**

89. Diben y ddeddfwriaeth hon yw cyflwyno system gynllunio fodern drwy wneud newidiadau i weithdrefnau cynllunio a'r ffordd y caiff gwasanaethau cynllunio eu darparu a chynlluniau datblygu eu paratoi. Ni fydd y Bil yn cynnwys polisi cynllunio. Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol.

90. Mae'n bosibl y gallai'r Bil gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar y Gymraeg drwy alluogi datblygiadau a fydd yn darparu'r swyddi a'r twf sydd eu hangen i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);**

91. Diben y ddeddfwriaeth hon yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

92. Mae'r Bil yn darparu cyswllt pwysig â strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Iaith Fyw: Iaith Byw*, yn enwedig mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o werth yr iaith a chryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

93. Bydd y Bil yn pennu nodau llesiant uchelgeisiol ar gyfer yr hirdymor er mwyn adlewyrchu'r Gymru yr hoffem ei gweld yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod iaith Gymraeg ffyniannus wrth wraidd y broses o ddiffinio Cymru gynaliadwy. Bydd y Bil yn garreg filltir bwysig o ran pwysleisio statws swyddogol yr iaith ac yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlwg o'r agenda yng Nghymru ymhell i'r dyfodol.

94. Drwy nodi iaith Gymraeg ffyniannus fel un o chwe nod llesiant ar gyfer sefydliadau cyhoeddus a enwir, bwriedir i'r Bil sicrhau bod dyfodol hirdymor yr iaith yn ganolog i'r amcanion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

**Rheoliadau a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

95. Rhan allweddol o'r broses o weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw datblygu safonau a fydd yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ar sefydliadau. Mae'r amserlen gyfredol yn dangos y caiff pleidlais ei chynnal i gymeradwyo rheoliadau ar gyfer y gyfres gyntaf o safonau yn ystod Cyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2015. Bydd y gyfres gyntaf yn gymwys i Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol.

96. Mae'r safonau arfaethedig wedi'u drafftio gan ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol, sy'n adlewyrchu ymrwymiadau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y broses o graffu ar y Mesur drafft:
    - sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg;

- sicrhau bod y safonau mor glir â phosibl o ran yr hyn y mae angen i sefydliadau ei wneud yn ymarferol i gydymffurfio â nhw, fel bod personau mor sicr â phosibl ynghylch beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg;
- sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau, yn enwedig rhwng sefydliadau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Cymraeg;
- sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau a osodir ar sefydliadau yn unol â safonau'r Gymraeg yn rhai rhesymol a chymesur;
- lleihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaethau Cymraeg, fel bod modd iddynt ganolbwyntio ar wella'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu;
- sicrhau y caiff safonau eu gorfodi'n effeithiol;
- sicrhau y gellir paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ategu'r rheoliadau y nodir y safonau ynddynt.

97. Caiff y safonau newydd hyn eu cyflwyno'n raddol, gan ddisodli Cynlluniau Iaith Gymraeg fesul sector yn unol â system blaenoriaethu a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

98. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg a fydd yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau'r Gymraeg. Hwn fydd y tribiwnlys cyntaf i gael ei sefydlu o dan ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

99. Ar 17 Gorffennaf 2014, penododd y Prif Weinidog Keith Bush CF yn Llywydd cyntaf Tribiwnlys y Gymraeg. Gwnaethpwyd y penodiad hwnnw yn unol â Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013, a nododd y gofynion ar gyfer penodi'r Llywydd ac aelodau eraill o'r Tribiwnlys. Caiff aelodau cyfreithiol gymwys ac aelodau lleyg eu penodi ar ddechrau 2015. Caiff y Tribiwnlys ei sefydlu erbyn diwedd mis Mawrth 2015 i gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer Safonau'r Gymraeg.

**Bil Tai (Cymru)**

100. Mae Bil Tai (Cymru) ("y Bil") yn gyfres gydlynol o gynigion a fydd yn cyfrannu at dair blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer tai, sef: mwy o gartrefi, gwell cartrefi a gwell gwasanaethau. Yn gyffredinol, bydd yn helpu i sicrhau y gall unigolion gael gafael ar gartref fforddiadwy, boddhaol a bod unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gall pwerau disgresiwn ar gyfer y **Dreth Gyngor ar gartrefi gwag** olygu y bydd mwy o dai fforddiadwy ar gael mewn cymunedau gwledig, Cymraeg eu hiaith, a allai helpu i gynnal a gwella'r cymunedau hynny a'r defnydd o'r Gymraeg.

**<u>Gwybodaeth am effaith unrhyw ddeddfwriaeth y DU ar y Gymraeg</u>**

101. Weithiau, gall deddfwriaeth y DU effeithio ar y Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun meysydd polisi annatganoledig.

102. Un enghraifft o ddeddfwriaeth ddiweddar y DU a allai effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru ac arwain at gost annisgwyl ar gyfer y gyllideb yng Nghymru oedd y Bil Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu Gan Grwpiau Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur. Nododd y Prif Weinidog y gallai un o'r darpariaethau, a oedd yn ymwneud â lleihau swm yr arian a allai gael ei wario gan drydydd partïon ar ymgyrchu di-blaid mewn perthynas ag etholiadau - gael effaith andwyol

yng Nghymru lle y gallai fod angen cynhyrchu deunydd etholiadol yn ddwyieithog, a byddai'r costau cyfieithu yn golygu y gallai llai o ddeunydd gael ei gynhyrchu yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Ar ôl trafod y mater gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ysgrifennodd y Prif Weinidog at Lywodraeth y DU ynglŷn â hyn ac, o ganlyniad, cytunwyd ar ddiwygiad i eithrio'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyhoeddi deunydd etholiadol yn Gymraeg a Saesneg wrth gyfrifo'r swm y gellir ei wario ar lenyddiaeth ymgyrchu.

**Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**